**Lee Waters AS/MS**
**Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Deputy Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LW/00558/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

10 Awst 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf ynghylch Deiseb P-05-935 Gwahardd Parcio ar Balmentydd - Addewid Palmant.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Barcio ar Balmentydd bellach wedi cwblhau ei waith ac rydym wrthi'n ystyried y casgliadau. Byddaf yn cyflwyno rhagor o wybodaeth i'r Aelodau a'r cyhoedd yn yr Hydref.

Ni all y Grŵp Gorchwyl a Gorffen felly bellach ystyried rhagor o dystiolaeth ond bydd swyddogion yn adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn sicrhau nad yw'n tynnu sylw at unrhyw faterion newydd. Dylid nodi fod RNIB Cymru a Living Streets wedi cyfrannu at waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac rydym yn hyderus ein bod wedi mynd i'r afael â nifer o'r materion y maent wedi tynnu sylw atynt.

Yn fwy na thebyg bydd angen llunio canllawiau statudol a chanllwiau gweithredol ar gyfer awdurdodau lleol wrth i'r newidiadau i barcio ar balmentydd gael eu cyflwyno. Bydd angen hefyd cynnal ymgyrch cyhoeddusrwydd a llunio Offeryn Statudol. Gallai gymryd hyd at fis Gorffennaf 2022 i gwblhau'r broses sydd ynghlwm wrth yr Offeryn Statudol.

Yn gywir,

**Lee Waters AS/MS**
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Deputy Minister for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.